# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**23.10.25**




## Dathlu'r Cynhaeaf! - Harvest Celebrations!

Mae hi'n sicr wedi bod yn wythnos o ddathlu! Dechreuon ni'r wythnos â gwasanaeth i ddathlu **Diwali** a theimlo hwyl Gŵyl y Golau. Dymunwn Diwali Hapus i bawb sydd yn dathlu yn ein cymuned. Yna, roedd cyfle arbennig iawn i ni ddod at ein gilydd fel ysgol gyfan ar gyfer Dathliad Cynhaeaf yn y capel. Cafwyd berfformiadau arbennig iawn gan bob dosbarth. Llongfarchiadau mawr i bob plentyn a diolch mawr i'r holl staff am eu gwaith paratoi trylwyr. Mae clipiau fidio ar *Google Classrooms* pob dosbarth ac rydym hefyd wedi creu ffeiliau sain o bob perfformiad – mwynhewch a rhannwch trwy ddilyn y **Codau QR** isod. Fel rhan o'n dathliad cynhaeaf, casglwyd ar gyfer y Banc Bwyd ac hyfryd yw cyhoeddi bod **63.9kg** o nwyddau wedi'u casglu! Gwych! Diolch am eich cefnogaeth wrth i ni wneud gwahaniaeth i'n cymuned.♥♥

Heddiw, cawsom y fraint o wylio Gwasanaeth Dosbarth 5C. Ac am berfformiad gwych! Rydym mor falch ohonoch, Dosbarth 5C. Da iawn chi bob un! Diolch i Mrs Bikram a Miss Thomas am lywio gwasanaeth mor arbennig ac iddo negeseuon hollbwysig am y Cynhaeaf. Mae ein dyled a'n diolch yn fawr i Mrs Bikram sydd yn gadael yr ysgol heddiw wrth i gyfnod mamolaeth Mrs Jones ddod i ben. Diolch, Mrs Bikram, am eich gofal, eich cymorth, eich gwaith caled a'ch ffordd tawel, diymhongar.♥

Gyda diwrnod HMS yfory, mae gwyliau'r hanner tymor yn cyrraedd heddiw i blant yr ysgol. Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur ond gwbl hyfryd ac mae'r dysgu am ein Cynefin wedi bod yn ddwfn ac yn frwd. Ar ran holl staff yr ysgol, diolch am bob cefnogaeth dros yr hanner tymor a dyma ddymuno gwyliau braf i chi gyd.

✳ ✳ ✳ ✳ ✳ ✳

It's certainly been a week of celebration! We started the week with an assembly to celebrate **Diwali**, a Festival of Lights. **Happy Diwali** to all who are celebrating across our community. We then had a special opportunity to come together as a whole school for our Harvest Celebration in the chapel and were treated to wonderful performances from each class. Congratulations to all our children and a big DIOLCH all the staff for their thorough preparation. There are video clips on each class's *Google Classrooms* and we've also created audio files of all the performances – enjoy sharing and listening by following the **QR Codes** below. As part of our harvest celebration, we collected for the Food Bank and are delighted to announce that an amazing **63.9kg** of goods were collected! Thank you for your support as we make a difference to our community.♥♥

Today, we had the privilege of enjoying **Dosbarth 5C's Class Assembly**. And what a performance! We are so proud of all of you, 5C – da iawn bob un! I would like to thank Mrs Bikram and Miss Thomas for preparing a special assembly with important messages about Harvest. Today is **Mrs Bikram's** last day with us at school. Diolch, Mrs Bikram for your care and support, your hard work and your quiet, unassuming way. It really has been a pleasure ♥

With an INSET day tomorrow, the half term holiday arrives today for our children. It has been a busy but fabulous half term. Our learning about *Cynefin* has been eager and meaningful. On behalf of all our school staff, diolch for your support throughout the half term – we all wish you a relaxed and happy half term break.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Gwener / Friday 24.10.25**
Diwrnod HMS
*INSET Day*

**Llun / Monday 18.11.25**
Gwiethdy Darllen i Rieni
Reading Workshop for parents

**Gwener / Friday 14.11.25**
Plant Mewn Angen
*Children in Need*

**Gwener / Friday 5.12.25**
Gwasanaeth Cofio Y Lan (Bl 4)
*Y Lan Memorial (Year 4)*

**5.12.25 @ 3.30pm**
Ffair Nadolig
*Christmas Fayre*

**9.12.25 a 10.12.25**
Cynherddau Nadolig
*Christmas Concerts*

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.
*Our live calendar is on our school website's homepage.*

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Tachwedd 14
Dydd Gwener Tachwedd 28
Dydd Gwener Rhagfyr 12

**Bws Beics:**
**Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday November 14
Friday November 28
Friday December 12








Llongyfarchiadau Dosbarth 5C ar eich Gwasanaeth Gwych!

Congratulations to Dosbarth 5C for your fantastic assembly!

## Sain Dathlu'r Cynhaeaf / Harvest Celebration Audio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cân Synhwyrau<br>Meithrin bore a'r Derbyn<br>Morning Nursery & Reception | Cân y fasged siopa<br>Meithrin bore a'r Derbyn<br>Morning Nursery & Reception | Cân Synhwyrau<br>Meithrin prynhawn a'r Derbyn<br>Afternoon Nursery & Reception | Cân y fasged siopa<br>Meithrin prynhawn a'r Derbyn<br>Afternoon Nursery & Reception |
| Braf yw bwyta<br>1C & 2C | Diolch<br>1C & 2C | Harvest Time<br>1E & 2E | Cauliflower fluffy<br>1E & 2E |
| Meddwl am fyd<br>5C & 6C | Can fach o ddiolch<br>5C & 6C | Samba'r Cynhaeaf<br>Pawb | Fel Un<br>Pawb |

## Dweud eich dweud ar brydau ysgol am ddim

Fel y gwyddoch efallai, gall pob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru gael cinio ysgol am ddim drwy bolisi Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Cynradd (UPFSM) Llywodraeth Cymru.

Mae Arad Research ac ICF wedi cael eu comisiynu i werthuso effaith y polisi hwn ar deuluoedd. Maent yn gwahodd rhieni a gofalwyr i rannu eu barn, os yw eich plentyn yn cymryd cinio ysgol neu ddim. Bydd eich adborth yn cael ei ddefnyddio i ddeall effaith y polisi ac i archwilio ffyrdd o'i wella.

Mae'r arolwg yn cymryd tua 10–15 munud: https://horizons.confirmit.eu/wix/p584531639198.aspx

Diolch am eich amser a'ch cefnogaeth.

## Have Your Say on Free School Meals

As you may know, all primary school children in Wales can access a free school meal through the Welsh Government's Universal Primary Free School Meals (UPFSM) policy.

Arad Research and ICF have been commissioned to evaluate the impact of this policy on families. Parents and carers are invited to share their views—whether or not your child currently takes up the offer. Your feedback will be used to understand the impact of the policy and explore ways it might be further improved.

The survey takes around 10–15 minutes to complete: https://horizons.confirmit.eu/wix/p584531639198.aspx

Thank you for your time and support.

## Rags to Riches

**Casgliad dillad ail-law**
**Pre-loved clothes collection**

Dydd Mawrth - Tuesday: 25/11/25

Dydd Gwener - Friday: 20/3/26

Dydd Gwener – Friday: 26/6/25

## CRhA / *PTA*

**05.12.25**
Ffair Nadolig / *Christmas Fayre*

**Noson Bingo Night**
**Dydd Gwener / Friday**
**06.02.25**

Yn sgil gwerthiant tocynnau, mae'r Noson Bingo wedi'i ohirio. Croeso i chi gadw eich tocynnau neu gael eich harian yn ôl .

Due to ticket sales, the Bingo Night has been postponed. Any tickets already bought can be kept or refunded,




Diolch i bwyllgor Dinasyddion y Dyfodol am baratoi'r wybodaeth yma – dilynwch y QR i weld!

Casgliad Nesaf:

Dydd Gwener 28.11.25

Diolch to our Citizens of the Future Committee who have prepared this for us – follow the QR to see!

Next Collection:

Friday 28.11.25



## Amddiffyn a Diogelu Plant


Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: [Polisi Diogelu ac Plant]

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

## Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: [Safeguarding and Child Protection]

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.




Byddwn yn cynnal noson agored Dosbarth Derbyn ar 18.11.25. Rhannwch y neges ymhellach ac agos!

We will be hosting a Reception Class Open Evening on 18.11.25. Share the message far and wide!







# NOSON AGROED DERBYN

# RECEPTION OPEN EVENING

## 18/11/25 @ 5 PM

Croeso cynnes i bawb!

A warm welcome to all!

**Dewch i weld dosbarth Derbyn Ysgol Gwaelod y Garth.**
**Come and see Ysgol Gwaelod y Garth's Reception class.**

Cyfle anffurfiol i weld yr ysgol, i holi cwestiynau ac i gyfarfod staff a theuluoedd eraill.
Nid oes angen trefnu ymlaen llaw ond croeso i chi gysylltu â ni.

An informal opportunity to see the school, ask questions and meet staff and other families.
No need to arrange in advance, but feel free to contact us.



029 20810489 neu ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk
@gwaelod

## 🌟 Gwahoddiad i Rieni: Dewch i Helpu Plant i Ddarllen! 🌟

Annwyl rieni/gwarcheidwaid,

Yn Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth, rydym yn credu bod darllen yn allwedd i lwyddiant. Rydym yn awyddus i roi cyfle i'n plant i ymarfer eu sgiliau darllen gyda chefnogaeth oedolion caredig a brwdfrydig – a dyna lle gallwch chi helpu!

**Beth fydd hyn yn ei olygu?**

- Treulio ychydig o amser bob wythnos yn darllen gyda phlant unigol neu mewn grwpiau bach.
- Cefnogi plant i ddatblygu hyder, rhuglder a mwynhad o ddarllen.
- Dim profiad addysgu yn angenrheidiol – dim ond cariad at lyfrau a phlant!

**Pryd?**

Gallwn weithio o amgylch eich argaeledd – byddai hyd yn oed awr yr wythnos yn werthfawr iawn.

**Sut i gymryd rhan?**

Os hoffech chi wirfoddoli, cysylltwch Mrs. Wendy Owen drwy:

📧 Ebost: wendy.owen3@cardiff.gov.uk

Neu siaradwch â'r swyddfa ysgol yn uniongyrchol.

**Diolch o galon am eich cefnogaeth – gyda'ch help chi, gallwn wneud wahaniaeth go iawn i ddarllen plant!**



## 🌟 Invitation to Parents: Come and Help Children Read! 🌟

Dear parents/guardians,

At Gwaelod y Garth Primary School, we believe that reading is key to success. We're eager to give our children the opportunity to practise their reading skills with the support of kind and enthusiastic adults – and that's where you can help!

**What will this involve?**

- Spending a little time each week reading with individual children or in small groups.
- Supporting children to develop confidence, fluency, and enjoyment of reading.
- No teaching experience necessary – just a love of books and children!

**When?**

We can work around your availability – even an hour a week would be incredibly valuable.

**How to get involved?**

If you'd like to volunteer, please contact Mrs Wendy Owen via:

📧 Email: wendy.owen3@cardiff.gov.uk

Or speak directly to the school office.

Thank you so much for your support – with your help, we can make a real difference to children's reading!



## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week